31ain o Awst 2021

Annwyl Gynghorydd,

Gwysir chwi i gyfarfod o Gyngor Tref Frenhinol Caernarfon i'w gynnal Nos Fawrth, 7fed o Fedi 2021 am 6.00 o'r gloch yr hwyr.

Oherwydd Covid-19 bydd y cyfarfod yn cymryd lle o'ch cartref, ar lein drwy ddefnyddio system "Zoom".

Bydd gwahoddiad ffurfiol i'r sustem trwy "Zoom" yn cael ei anfon atoch cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Yn gywir,

Sion Wyn Evans
Clerc y Dref

Rhaglen

1.Ymddiheuriadau

2.Cyhoeddiadau'r Maer

3.Datgan Buddiant Personol

4.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

5.Cofnodion

I gadarnhau'r cofnodion canlynol (yng nghefn y rhaglen):-

(i) Cyngor Llawn, 6ed o Orffennaf 2021 (Atodiad **Gwyrdd**).
(ii) Pwyllgor Gwaith, 13eg o Orffennaf 2021 (Atodiad **Glas**)
(iii) Pwyllgor Adloniant, 27ain o Orffennaf 2021 (Atodiad **Pinc)**

6.Cyfrifon

I gymeradwyo'r biliau rhoddion a chyflogau i'w talu.

7. Cyfrifon Incwm a gwariant a chysoni cyfrifon

8. Gohebiaeth gan Gyngor Cymuned Llandygai - Diffyg Ymateb a Chyfathrebu Cyngor Gwynedd.

Cyflwyno gohebiaeth gan Gyngor Cymuned Llandygai yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor i'w cais am gyfarfod gyda Mr Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd (copi ynghlwm).

9. Jiwbili Platinum y Frenhines.

Cyflwyno gohebiaeth gan Bruno Peek yn cyflwyno cyngor ar gymryd rhan yn Jiwbili Platinum y Frenhines (copi ynghlwm).

10. Problemau Parcio Dros Nos.

Cyflwyno gohebiaeth gan Dafydd Wyn Williams o Gyngor Gwynedd yn ymateb i'r materion a godwyd gan Gyngor Cymuned Pistyll ac a drafodwyd gan y Cyngor Tref yn ei gyfarfod diwethaf (copi ynghlwm).

11. Operation London Bridge

Cyflwyno gohebiaeth gan Un Llais Cymru yn rhoi canllawiau i gynghorau Tref a Chymuned ar ymateb i farwolaeth y Frenhines Elizabeth yr Ail (copi ynghlwm).

12. Fframwaith Adfywio Cyngor Gwynedd – Ardal Ni 2035

Cyflwyno gwybodaeth am Fframwaith Adfywio Cyngor Gwynedd – Ardal Ni 2035 (copi ynghlwm).

13. Helfa Ysbrydion Elusennol

Cyflwyno gohebiaeth yn gofyn i'r Cyngor ystyried os ellid cynnal Helfa Ysbrydion Elusennol yn Adeilad yr Institiwt (copi ynghlwm).

14. Diweddaru'r canllawiau er mwyn cefnogi Model God Ymddygiad 2016

Nodi bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi diweddaru'r canllawiau er mwyn cefnogi Model God Ymddygiad 2016.

Nid yw Cod Ymddygiad 2016 wedi newid.

15. Cofeb i Ivor Parry (ROVI)

Cyflwyno gohebiaeth gan Hilary Jones o ran y syniad o godi cofeb i Ivor Parry (ROVI) yng Nghaernarfon (copi ynghlwm).

16. Cyfarfod Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr – Mehefin 2021

Cyfarfod gohebiaeth o ran Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr – Mehefin 2021 (copi ynghlwm).

17. Cylch Cyfeillgarwch y Trefi Caerog - Trip Iwerddon

Cyflwyno adroddiad y Clerc o ran syniadau yn deilio o'r trip a gynhaliwyd i Iwerddon rai blynyddoedd yn ôl (copi ynghlwm).

18. Ymgynghoriad: Blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd

Cyflwyno gohebiaeth ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymry ar y Blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd (copi ynghlwm).

19. Papur Briffio Llywodraeth Cymru ar gyfer cynghorau cymuned a thref Cyfarfodydd aml-leoliad a hysbysiadau cyfarfod – Awst 2021

Cyflwyno nodyn briffio Llywodraeth Cymru i ategu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn benodol mewn perthynas ag adran 47 sy'n ymwneud â chyfarfodydd aml-leoliad (copi ynghlwm).

20. Ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanarlwyo

Cyflwyno gwybodaeth ar yr ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanarlwyo (copi ynghlwm).

21. Cyfrifon yr Institiwt

Cyflwyno Cyfrifon yr Institiwt am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2021 (copi ymghlwm).

22. Noson Tân Gwyllt

Cyflwyno adroddiad llafar y Clerc ar y Noson Tân Gwyllt.

23. Rhybudd o Gynnig

Cyflwyno'r Rhybudd o Gynnig a ganlyn:

Y Cynghorydd W.Tudor Owen

"Mae'r coed sydd yn tyfu yng nghwrtil cefn Adeilad yr Institiwt wedi mynd yn fawr ac yn flêr.

Gofynnir i'r Cyngor ystyried torri a thrin y coed er mwyn lleihau difrod i'r adeilad."

24. Cwestiynau

25. Cau Allan y Wasg a'r Cyhoedd

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

26. O Law i Law

Cyflwyno adroddiad ysgrifenedig yn rhoi diweddariad ar yr uchod (copi ynghlwm).